

Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol

1 Rhagfyr 2021, 12.15pm

Cyfarfod ar-lein drwy Microsoft Teams

Mae rhestr o bawb sy'n bresennol ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol os gwneir cais amdani.

Eitem 1 Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd Russell George AS, y Cadeirydd dros dro, y rhai a oedd yn bresennol a rhoddodd gyflwyniad byr i waith blaenorol y Grŵp Trawsbleidiol a chylch gorchwyl ar gyfer y dyfodol i'r grŵp newydd ei ffurfio.

Diolchodd i British Heart Foundation Cymru ac Ymchwil Canser Cymru am eu cefnogaeth hyd yma i ailgychwyn gwaith y grŵp ar ôl etholiad y Senedd yn 2021. Cyn symud ymlaen i'r eitem ganlynol, sef y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ffurfiol, trosglwyddwyd yr awenau i Greg Pycroft (Ymchwil Canser Cymru).

Eitem 2 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhaliodd Greg Pycroft etholiad Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ac fe wahoddodd enwebiadau.

Enwebai	Cynigiwyd gan	Eiliwyd gan
Russell George AS	Sioned Williams AS	Altaf Hussain AS

Nid oedd unrhyw enwebeion eraill, ac nid oedd angen etholiad – etholwyd Russell George AS i rôl y Cadeirydd. Trosglwyddwyd yr awenau yn ôl i'r Cadeirydd er mwyn ethol Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol.

Cynhaliodd y Cadeirydd etholiad Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ac fe wahoddodd enwebiadau.

Enwebai	Cynigiwyd gan	Eiliwyd gan
Charlotte Morgan (British Heart Foundation Cymru) a Greg Pycroft (Ymchwil Canser Cymru) yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cyd-Ysgrifenyddiaeth	Altaf Hussain AS	Joanne Ferris (ABPI)

Nid oedd unrhyw enwebeion eraill, ac nid oedd angen etholiad. Etholwyd British Heart Foundation Cymru ac Ymchwil Canser Cymru i ddarparu cyd-Ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol.

**Eitem 3 Cyflwyniad: Ymchwil glinigol yn y DU: cyfle i dyfu
Jennifer Harris, PhD, Pennaeth Polisi Ymchwil
Cyndeithas Diwydiant Fferyllol Prydain**

Cyflwynodd y Cadeirydd Dr Harris. Estynnodd wahoddiad iddi roi ei chyflwyniad a oedd yn cynnwys canfyddiadau [adroddiad diweddar ABPI ar dreialon clinigol yn y DU](#) (mae sleidiau'r cyflwyniad wedi'u rhannu ar wahân).

Eitem 4 Safbwynt y claf

[Julie Hepburn](#)

[Partner Ymchwil Lleyg Arweiniol, Canolfan Ymchwil Canser Cymru](#)

Cyflwynodd y Cadeirydd Julie a'i gwahodd i sôn am ei phrofiad o ymchwil feddygol.

Rhannodd Julie ei phrofiad ym maes canser, a sut mae hynny wedi dylanwadu ar ei diddordeb a'i rôl mewn ymchwil canser.

Teimlai Julie fod angen dull cydgysylltiedig o ymchwilio i ganser yng Nghymru, ac mae'n gobeithio y bydd Strategaeth Ymchwil Canser Cymru yn helpu i gyflawni hyn.

Siaradodd Julie am bwysigrwydd cael cyfran deg o gyllid ymchwil i Gymru gan Lywodraeth y DU; bod gyrfaoedd ymchwil da a chystadleuol i ymchwilwyr aros yng Nghymru, a nododd bwysigrwydd cynyddol treialon dyfeisiau a thechnoleg gan eu bod yn helpu i wella canlyniadau cleifion, yn enwedig cleifion â chyflyrau cronig/cydafiacheddau.

Eitem 5 Safbwynt y claf

[Lucy Dixon](#)

[Cadeirydd, PCD Support UK](#)

Cyflwynodd y Cadeirydd Lucy a'i gwahodd i roi ei chyflwyniad (mae sleidiau'r cyflwyniad wedi'u rhannu ar wahân).

Rhoddodd Lucy gyflwyniad i'r Grŵp Trawsbleidiol ar y clefyd prin Primary Ciliary Dyskinesia (PCD), sydd arni ers iddi gael ei geni, wedi iddi gael diagnosis pan oedd yn 4 oed.

Gan ei fod yn brin, nid oes llawer o ymchwil wedi cael ei gwneud i'r afiechyd, ond mae'r ymchwil sydd wedi'i gwneud wedi darganfod bod PCD yn effeithio ar fwy o bobl na'r amcangyfrifon blaenorol. Ymchwil fydd yr unig ffordd o wella'r canlyniadau i bobl â PCD.

Mae'r holl ymchwil ar PCD yn cael ei gwneud y tu allan i Gymru. Pwysleisiodd Lucy fod cofrestrfeydd cleifion yn wirioneddol bwysig i bobl yng Nghymru, ac yn fodd o gael mynediad at y cyfleoedd ymchwil prin sydd ar gael.

Eitem 6 Holi ac ateb

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl siaradwyr am eu cyfraniadau a gwahoddodd gwestiynau neu sylwadau.

Gwnaeth Lee Campbell (Ymchwil Canser Cymru) sylw yn ymwneud ag oedi canfyddedig o ran adferiad rhai treialon clinigol mewn rhai safleoedd. A yw'n bryd cael rhyw fath o fap o'r ffordd ymlaen ar gyfer treialon clinigol yng Nghymru?

Gofynnodd Rhian Thomas-Turner (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) sawl cwestiwn ynghylch sut mae'r diwydiant yn cael ei ymwreiddio yn y GIG, fel bod yr olaf o'r rhain yn deall yn well ac mewn gwell sefyllfa i elwa ar y cynhyrchion sydd ar y gweill. Gofynnodd hefyd am gael dyluniad gwell ar gyfer treialon clinigol.

Ymatebodd Dr Harris fod ABPI yn credu mewn dull o'r brig i lawr/o'r gwaelod i fyny. Mae angen cyfeiriad strategol cryf ac agenda ar lefel y Bwrdd; ac mae angen i gydweithwyr fod yn ymwybodol o ecosystem ehangach y diwydiant. Mae'r diwydiant yn rhychwantu cenhedloedd/awdurdodaethau, a gellir rhannu arfer gorau o fannau eraill. O ran treialon clinigol, mae'n rhaid i ni ddefnyddio dulliau newydd o weithio – mae angen gwneud hynny yn y byd ar ôl y pandemig. Rhaid archwilio'r hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd i ddatgloi capasiti presennol nad yw'n cael ei ddefnyddio. Meddwl mewn ffordd arloesol, defnyddio popeth.

Nododd Keith Lloyd fod Cymru yn cael 60 y cant o'r cyllid pro-rata ar gyfer ymchwil o'r hyn a gaiff Lloegr a bod hyn yn rhwystro cyfleoedd oni bai bod buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Pwysleisiodd Matthew Morgan bwysigrwydd ymchwil gofal aciwt/critigol, ac nad oes digon ohoni yn cael ei gwneud yng Nghymru. Mae gan Gymru'r nifer leiaf o academyddion clinigol ers blynyddoedd; mae cyllid ar gyfer clinigwyr ymchwil wedi lleihau. O ble mae hynny'n dod?

Eitem 7 Camau gweithredu a'r camau nesaf

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau, a fyddai'n helpu wrth lywio datblygiad cynllun gwaith y Grŵp Trawsbleidiol. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau ychwanegol yn ymwneud â'r cynllun gwaith at yr Ysgrifenyddiaeth.

Caiff copïau o gofnodion y cyfarfod eu dosbarthu gan yr Ysgrifenyddiaeth.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gweinyddu cofrestru'r Grŵp Trawsbleidiol gyda Chomisiwn y Senedd.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhoi gwybod am gyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20pm